

## **Trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen 2017-18**

Cyflwynwyd Proffil y Cyfnod Sylfaen ym mis Medi 2015 ac mae'n ofyniad statudol i ysgolion ddefnyddio'r Proffil i gynnal asesiadau sylfaenol o blant ar ddechrau'r Flwyddyn Derbyn. Rwy'n gwybod fod llawer o ysgolion yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen i olrhain cynnydd plant gydol y Cyfnod Sylfaen ac yn bwriadu ei ddefnyddio i gynnal asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn nhymor yr haf 2018. Fodd bynnag, nid yw'n orfodol defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen ar gyfer asesiad diwedd y Cyfnod Sylfaen. **Dylai ysgolion barhau i ddefnyddio'r dull cyd-fynd orau yn erbyn disgrifiadau'r canlyniadau,** gan ddefnyddio canlyniadau Proffil y Cyfnod Sylfaen i lywio eu barn fel bo angen.

2017-18 fydd y flwyddyn gyntaf i asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen gael eu cynnal yn erbyn y disgrifiadau canlyniadau diwygiedig ar gyfer Meysydd Dysgu diwygiedig Datblygiad Mathemategol a Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a gyflwynwyd ym mis Medi 2015. Ni wyddom ar hyn o bryd beth fydd effaith cyflwyno'r Meysydd Dysgu mwy heriol hyn. Rwy'n gobeithio bydd ysgolion yn gallu gynnal lefelau tebyg gan eu bod wedi cael amser i weithio ar y meysydd dysgu diwygiedig gyda'u plant dros sawl blwyddyn. Er efallai y bydd angen adolygu targedau yn y tymor byr, ein disgwyliad yw y byddai ysgolion yn nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth sy'n atal disgyblion rhag cyflawni'r canlyniadau diwygiedig a mynd i'r afael â'r rhain.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod trefniadau asesu'r dyfodol yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi a gwella addysgu a dysgu. Wrth i argymhellion Dyfodol Llwyddiannus gael eu rhoi ar waith dros y blynyddoedd nesaf bydd pwyslais o'r newydd ar Asesu ar gyfer Dysgu fel nodwedd naturiol ac annatod o ddysgu ac addysgu a cham oddi wrth gasglu gwybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc fesul ysgol at ddibenion atebolrwydd.

Prif ddiben asesu yw darparu gwybodaeth a all lywio penderfyniadau y ffordd orau o ddatblygu dysgu disgyblion a dylid ei ddefnyddio er lles pobl disgybl i addasu eu strategaethau dysgu i fod yn addas i'w cynnydd unigol. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r proffesiwn a'r holl randdeiliaid a phartneriaid fel rhan o adolygiad sylfaenol o'r system atebolrwydd, ac wrth symud i amgylchedd lle mae penderfyniadau allweddol yn cael eu cymryd yn lleol, mae'n hanfodol ein bod ni'n osgoi effeithiau sy'n llurgunio ffeithiau a all godi o ofynion perfformiad ac adrodd allanol.